| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **10 RHAGFYR 2012** |
| **TEITL:** | **ADOLYGU'R DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU** |
| **PWRPAS:** | **ER GWYBODAETH A PHENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

Fe gyflwynodd y Ddeddf Trwyddedu 2003 yr angen i Awdurdodau Trwyddedu lunio Datganiad o Bolisi Trwyddedu ( "y Polisi" ), yn dilyn ymgynghoriad llawn gyda rhynddeiliaid.

Mae'n ofynnol i'r Polisi gael ei adolygu bob tair blynedd, i sicrhau ei fod yn parhau o i gyrraedd y nod o safbwynt hyrwyddo amcanion y Ddeddf Trwyddedu .
Fe gyflwynwyd y Polisi i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 16ed o Ragfyr 2010, yn dilyn adolygiad llawn a man newidiadau i'r cynnwys. Fe dderbyniwyd y Polisi Diwygiedig gan y Cyngor llawn, gyda argymhelliad fod man gangymeriadau a ganfuwyd yn y Polisi yn cael eu cywiro.

Oherwydd amryfusedd, ni gywirwyd y man gangymeriadau yn y Polisi ar y pryd, ac ni gyflwynwyd y polisi yn ol i'r aelodau er mwyn cymeradwyo y cywiriadau yn dilyn hyn.

Gyda newidiadau sylweddol wedi dod i rym yn ddiweddar i'r Ddeddf Trwyddedu gyda darpariaethau y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011; yn ogystal a'r Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 –fe fydd yn ofynnol i ddiwygio'r Polisi yn ei gyfanrwydd yn 2013.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor dderbyn y Polisi yn ei ffurf presennol hyd nes y bydd y Polisi yn cael ei adolygu yn ei gyfanrwydd.